



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Y Cwricwlwm i Gymru –
Y COD CYNNYDD
A'R
COD DATGANIADAU O'R HYN SY'N
BWYSIG**

**Memorandwm Esboniadol
ac Aseiad Effaith Rheoleiddiol**

Medi 2021

Memorandwm Esboniadol i God Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a Chod Cynnydd y cwricwlwm i Gymru

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd. Rwy'n fodlon bod y buddiannau'n cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg

29 Medi 2021

Cynnwys

RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol	4
1. DISGRIFIAD	4
2. MATERION O DDIDDORDEB ARBENNIG I'R PWYLLGOR DEDDFWRIAETH, CYFIAWNDER A'R CYFANSODDIAD	4
3. Y CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL	4
Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig	4
Y Cod Cynnydd	5
Gweithdrefn	5
4. DIBEN Y DDEDDFWRIAETH A'R EFFAITH Y BWRIEDIR IDDI EI CHAEL	5
Diweddariadau i'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig	6
Diweddariadau i Egwyddorion Cynnydd	8
5. YMGYNGHORI	10
Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	12
6. TROSOLWG O'R ASESAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL	12
7. OPSIYNAU	13
8. COSTAU A MANTEISION	14
9. ASESAD O'R GYSTADLEUAETH	14
10. ADOLYGIAD AR ÔL GWEITHREDU	15
Rhestr Termau	16

RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd yn rhoi dyletswyddau statudol ar ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod eu gwaith o ddylunio a chynllunio cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys ac yn defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, ac egwyddorion cynnydd a nodir yn y Codau.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae'r Codau hyn yn dilyn y weithdrefn negyddol ddrafft. Yn amodol ar y weithdrefn hon gan y Senedd, er y daw'r Codau i rym o fis Medi 2022, felly nid o fewn 21 diwrnod iddynt gael eu cyflwyno, efallai y bydd y Pwyllgor yn awyddus i nodi'r canlynol o ran diweddarau canllawiau i ysgolion a lleoliadau.
- 2.2 Mae Canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ar 28 Ionawr 2020 eisoes yn cynnwys y 27 o ddatganiadau drafft o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y chwe maes dysgu a phrofiad (Meysydd), yn ogystal ag egwyddorion cynnydd ar gyfer y cwricwlwm cyfan a phob Maes. Mae angen diweddarau'r agweddau hyn ar ganllawiau'r cwricwlwm i adlewyrchu ymrwymadau a wnaed gan Weinidogion pan basiwyd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn gynharach yn 2021, yn ogystal ag adborth o ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021.
- 2.3 Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n diweddarau canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn unol â'r Codau drafft er mwyn rhoi mwy o amser i ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cyngor hwnnw i lywio eu gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm drwy gydol blwyddyn academiaidd 2021/22. Mae'r diweddariadau i'r canllawiau wrthi'n cael eu drafftio, a byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

- 3.1 Mae Adran 6 o Ddeddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod sy'n nodi cysyniadau

allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad – Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig. Mae'n nodi:

- nad yw cwricwlwm yn cwmpasu maes dysgu a phrofiad (Maes) oni fydd yn cwmpasu'r cysyniadau hynny a nodir yn y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig (Adran 6(2) o'r Ddeddf)
- nad yw addysg a dysgu yn cwmpasu Maes oni fydd yn cwmpasu'r cysyniadau hynny a nodir yn y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig (Adran 6(2) o'r Ddeddf)
- bod yn rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn barhaus, ac y gallant ei ddiwygio (Adran 6(4) o'r Ddeddf).

Y Cod Cynnydd

3.2 Mae Adran 7 o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod sy'n nodi'r modd y dylai cwricwlwm ddarparu ar gyfer cynnydd gan ddysgwyr – y Cod Cynnydd. Mae'n nodi:

- nad yw cwricwlwm yn darparu ar gyfer cynnydd priodol oni fydd yn cyd-fynd â'r Cod Cynnydd (Adran (2) y Ddeddf)
- nad yw addysgu a dysgu yn darparu ar gyfer cynnydd priodol oni fydd yn cyd-fynd â'r Cod Cynnydd (Adran 7(3) y Ddeddf)
- bod yn rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r Cod Cynnydd yn barhaus, ac y gallant ei ddiwygio (Adran 7(4) o'r Ddeddf).

Gweithdrefn

3.3 Mae adran 76 o'r Ddeddf yn nodi, mewn perthynas â'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd, cyn cyhoeddi neu ddiwygio Cod, bod yn rhaid i Weinidogion Cymru:

- ymgynghori â'r unigolion sy'n briodol (os o gwbl) yn eu tyb hwy, a
- chyflwyno drafft o'r Cod arfaethedig (neu, yn achos diwygiadau, o'r Cod diwygiedig arfaethedig) gerbron Senedd Cymru.

3.4 Os bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo Cod drafft cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod, ni ddylai Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod hwnnw. Os na wneir unrhyw benderfyniad cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod ar ffurf drafft.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae diben ac effaith fwriadedig y Codau yn cysylltu'n uniongyrchol â'r rhai a nodir yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer y Ddeddf.

4.2 Yn gryno, mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o ran dysgu a'r egwyddorion cynnydd a nodir yn y Codau yn ffurfio rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru fel ffactorau allweddol sy'n trefnu ac yn ysgogi'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm. Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfle i bob ysgol a lleoliad ddylunio ei gwricwlwm ei hun o fewn dull gweithredu cenedlaethol sy'n sicrhau lefel o gysondeb.

- 4.3 Mae'r Codau yn ffurfio rhan o'r strwythur deddfwriaethol newydd sydd ei angen i gefnogi cwricwlwm a arweinir gan ddibenion lle mae cynnydd dysgwyr wrth ei wraidd. Mae'r Ddeddf, ynghyd â deddfwriaeth ategol fel y Codau a'r canllawiau hyn yn darparu ar gyfer cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n addas ar gyfer y 21ain Ganrif, sy'n diffinio'r 'syniadau mawr' y dylai dysgwyr eu deall ac ymgysylltu â nhw i'w paratoi ar gyfer bywyd. Mae'n rhoi cyfle o fewn fframwaith cenedlaethol i ysgolion a lleoliadau lunio cwricwlwm sy'n cysylltu mewn modd ystyrlon â'r gymuned leol a phrofiadau dysgwyr.
- 4.4 Mae'r prif egwyddorion ar gyfer datblygu'r Ddeddf i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys:
- helpu pob dysgwr i ymgorffori'r pedwar diben;
 - rhoi hawl i bob dysgwr, gan gynnwys y rheini sydd ag anawsterau dysgu difrifol, dwys neu luosog, gael addysg eang a chytbwys o ansawdd uchel drwy gydol ei gyfnod o addysg statudol;
 - hyrwyddo cynnydd dysgwyr; ac
 - annog addysg a dysgu sy'n ysgogi ac yn ddifyr, sy'n cefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng agweddau gwahanol ar yr hyn maent yn ei ddysgu.
- 4.5 Dylai'r Cwricwlwm i Gymru fod wrth wraidd ymdrechion athrawon, ysgolion ac ymdrechion cenedlaethol sy'n ceisio gwella safonau i bawb, mynd i'r afael â'r bwlch o ran cyrhaeddiad, a sicrhau system addysg sy'n ennyn balchder a hyder y cyhoedd ledled Cymru. Effaith fwriadedig y Codau arfaethedig yw ffurfio rhan o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'r amcanion hyn.

Diweddariadau i'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig

- 4.6 Mae'r adran hon yn esbonio newidiadau i'r datganiadau lle maent yn wahanol i'r rheini a gyhoeddwyd fel rhan o ganllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Yn bennaf, mae'r newidiadau'n gysylltiedig ag ymrwymadau Llywodraeth Cymru a wnaed fel rhan o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd yn 2020 a 2021. Fodd bynnag, mae rhagor o fân ddiwygiadau yn deillio o'r adborth o'r ymgynghoriad. Yn yr achos hwnnw, caiff ei nodi yn yr esboniadau isod.
- 4.7 Cafodd y broses o gyflwyno'r Codau ei diweddaru'n rhannol yn sgil yr adborth o'r ymgynghoriad i wella hygyrchedd a chyd-destunoli'r gofynion yn well o ystyried gofynion eraill y cwricwlwm ar ysgolion a lleoliadau. Mae hyn yn cynnwys esboniad ar y modd y mae'r Cod yn cysylltu â chanllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.

Y Celfyddydau Mynegiannol

- 4.8 Yn y datganiadau ym mharagraffau 2.1.1 a 2.1.2 o'r Codau, tynnwyd mwy o sylw at gyfeiriadau at ddylanwadau ac effaith gwaith o ddiwylliannau amrywiol, yn cynnwys eu cyfraniad at ein hanes, yn dilyn ymrwymadau a wnaed yn ystod hynt y Ddeddf – gyda chefnogaeth adborth o'r ymgynghoriad.

Iechyd a Llesiant

- 4.9 Yn y datganiad ym mharagraff 2.2.2, mae cyfeiriad mwy penodol at allu dysgwyr i geisio help, eirioli a meithrin ymwybyddiaeth ar faterion iechyd meddwl wedi'i gynnwys yn dilyn ymrwymïadau a wnaed yn ystod hynt y Ddeddf – gyda chefnogaeth adborth o'r ymgynghoriad.

Y Dyniaethau

- 4.10 Atgyfnerthwyd y datganiadau ym mharagraffau 2.3.3 a 2.3.5 ar newid yn yr hinsawdd, yr argyfwng hinsawdd a natur ac effeithiau ecolegol yn dilyn ymrwymïadau a wnaed yn ystod hynt y Ddeddf - gyda chefnogaeth adborth o'r ymgynghoriad. Mae hyn yn sicrhau dysgu ac addysgu gwell yn y maes hwn, ac yn helpu i hwyluso deialog ehangach mewn perthynas â'r pynciau hyn. Mae'r agwedd hon hefyd yn cysylltu â diwygiadau i ddatganiadau yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg a nodir isod.
- 4.11 Atgyfnerthwyd y datganiad ym mharagraff 2.3.4 er mwyn gwneud hanes Cymru a chyfraniad cymunedau amrywiol yn fwy pendant yn dilyn ymrwymïadau a wnaed yn ystod hynt y Ddeddf. Roedd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cefnogi hyn, gan awgrymu y dylid ad-drefnu cyfeiriadau penodol. Arweiniodd hyn at gyfeirio at ddysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gyffredin o hanes amrywiol, treftadaeth ddiwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach, er mwyn cysylltu'n well â chyfeiriadau at natur gymhleth, blwraliaethol ac amrywiol cymdeithasau sydd eisoes yn bodoli yn ail baragraff y datganiad hwn.
- 4.12 Mae'r datganiad ym mharagraff 2.3.5 wedi'i atgyfnerthu drwy gyfeirio'n benodol at wynebu a mynd i'r afael â hiliaeth yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad. Mae'r agwedd hon ar ddysgu yn cysylltu â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb Hiliol.
- 4.13 Mae'r datganiad ym mharagraff 2.3.5 hefyd wedi'i atgyfnerthu gan gyfeiriadau penodol at CCUHP a CCUHPA yn dilyn ymrwymïadau a wnaed yn ystod hynt y Ddeddf. Mae Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, sydd eisoes yn cynnwys canllawiau i ysgolion a lleoliadau ar CCUHP, hefyd yn cael ei ddiwygio ar ddiwedd 2021 i gynnwys rhagor o gefnogaeth i ysgolion a lleoliadau ar y ddau Gonfensiwn hyn fel rhan o'u gwaith o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm.

Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu

- 4.14 Mae'r datganiadau ym mharagraffau 2.4.1 a 2.4.2 wedi'u diwygio i gynnwys cyfeiriadau at gyd-destunau amlieithog mewn perthynas â'r Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd eraill. Yng nghyd-destun y Fframwaith hwn, mae amlieithog yn cyfeirio at wybodaeth am amrywiaeth o ieithoedd, y defnydd a wneir ohonynt a'r cysylltiadau a wneir rhyngddynt. Gall fod gan ddysgwyr hyfedredd amrywiol yn yr ieithoedd hyn, o wybodaeth oddefol neu ddealltwriaeth o eiriau unigol i ruglder uwch. Gall y dysgwr wneud

cysylltiadau rhwng ieithoedd, gwerthfawrogi'r cysylltiadau rhyngddynt ac ymarfer eu defnyddio'n unigol neu gyda'i gilydd. Cefnogwyd yr ymagwedd hon gan adborth o'r ymgynghoriad, ynghyd â chynnwys cyfeiriadau penodol at y Gymraeg a'r Saesneg.

- 4.15 Yn sgil yr adborth a gafwyd, mae 'dysgu ystyrion' hefyd wedi cael ei egluro ym mharagraff 2.4.1 i ddarllen 'dysgu iaith yn ystyrion' er mwyn cynorthwyo'r ymarferwr i ddeall – a gwnaed mân ddiwygiadau drafftio ar ddiwedd y datganiad i gydnabod nad yw creadigrwydd yn sgil y gellir ei 'darparu'.
- 4.16 Mae'r datganiadau ym mharagraffau 2.4.2 a 2.4.3 wedi'u hatgyfnerthu drwy ddiwygio'r cyfeiriad at 'ar lafar ac yn ysgrifenedig' (ynghyd â mân newidiadau cysylltiedig eraill) fel termau penodol wrth gyfeirio at iaith yn y cyd-destun hwn. Mae hyn am fod Iaith Arwyddion Prydain (BSL) wedi'i hychwanegu at ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y Maes hwn ar 30 Medi – yn unol â'r ymrwymiad a wnaed ar 28 Ionawr 2020. Iaith weledol yw BSL – mae'r adborth o'r ymgynghoriad yn cefnogi'r penderfyniad i'w chynnwys yn y cwricwlwm. Caiff sgiliau gwranddo a darllen, siarad ac ysgrifennu eu hadlewyrchu'n glir yn y disgrifiadau o ddysgu ar gyfer y Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd llafar eraill yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y Maes hwn.
- 4.17 Mae'r datganiad ym mharagraff 2.4.4 wedi'i atgyfnerthu yn sgil yr adborth o'r ymgynghoriad i gyfeirio'n benodol at y ffaith y dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o lenyddiaeth ac ymateb iddi.

Mathemateg a Rhifedd

- 4.18 Ni wnaed unrhyw ddiwygiadau i'r 4 datganiad yn y Maes hwn.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- 4.19 Atgyfnerthwyd y datganiad ym mharagraff 2.6.1 ar newid yn yr hinsawdd, yr argyfwng hinsawdd ac effeithiau ecolegol i sicrhau y gellir addysgu a dysgu yn well yn y maes hwn yn dilyn ymrwymadau a wnaed yn ystod hynt y Ddeddf. Mae hyn yn cysylltu â diwygiadau i ddatganiadau ym Maes y Dyniaethau.
- 4.20 Atgyfnerthwyd y datganiad ym mharagraff 2.6.3 yn sgil yr adborth a gafwyd i gynnwys cyfeiriad mwy penodol at iechyd dysgwyr a'r modd y gall eu penderfyniadau effeithio ar y byd o'u cwmpas yn hyn o beth.

Diweddariadau i Egwyddorion Cynnydd

- 4.21 Mae Adran 2 sy'n gyflwyniad i'r Cod Cynnydd wedi'i hailysgrifennu'n sylweddol yn sgil adborth o'r ymgynghoriad a mewnbwn gan gyfranogwyr. Gwnaed newidiadau i'r agwedd hon ar y Cod am y rhesymau isod.

- Mae angen diffinio cynnydd wrth ddysgu mewn modd symlach;
- Mwy o eglurder o ran beth yw'r egwyddorion, sut maent yn cyd-fynd â gofynion eraill y cwricwlwm, a sut y dylid eu defnyddio - yn cynnwys sut maent yn cysylltu â'r disgrifiadau o ddysgu a fynegwyd ym mhob cam cynnydd ar gyfer pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig ac yn eu cefnogi;
- Mwy o gyfeiriadau penodol ymlaen llaw at y pedwar diben, eu sgiliau hanfodol a'r sgiliau trawsgwricwlaidd yng nghyd-destun yr egwyddorion
- Tynnu sylw'n well at y pwyslais ar gynnydd ym mhopeth sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru (yn cynnwys bod yr egwyddorion yn orfodol ar gyfer ysgolion a lleoliadau);
- Cysylltiadau cryfach rhwng cynnydd dysgu ac addysgeg effeithiol yng nghyd-destun meddwl am y broses o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm.
- Pwyslais ar y pwynt bod cynnydd yn unigryw i ddysgwyr ac nad yw'n llinol, ond yn gylchol (gall ymddangos bod dysgwyr yn cymryd cam yn ôl o ran ei ddealltwriaeth mewn agweddau penodol cyn cymryd camau breision ymlaen);
- Cydnabod bod cynnydd yn fwy na chaffael ond ei fod hefyd ynghylch cymhwyso'r hyn a ddysgwyd.

Egwyddorion cyffredin

- 4.22 Ad-drefnwyd yr egwyddor ym mharagraff 3.1.2 yn dilyn yr adborth a gafwyd i roi mwy o eglurder i'r neges ynghylch gwell effeithiolrwydd.
- 4.23 Mae'r egwyddor ym mharagraff 3.1.3 wedi'i diwygio yn dilyn yr adborth a gafwyd i gydnabod pwysigrwydd cymhwyso gwybodaeth, ynghyd â chaffael gwybodaeth, mewn cynnydd wrth ddysgu.
- 4.24 Mae'r egwyddor ym mharagraff 3.1.4 wedi'i diwygio rywfaint yn dilyn yr adborth a gafwyd i gydnabod yn gywir nad oes unrhyw gamau 'dysgu cynnar' wedi'u nodi yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, gan nad yw'r camau cynnydd a nodir yn y disgrifiadau dysgu wedi'u dylunio i fod yn oedran-benodol.
- 4.25 Mae'r egwyddor ym mharagraff 3.1.5 wedi'i diwygio rywfaint yn dilyn yr adborth a gafwyd nad oedd y term 'sgiliau deallusol' yn ddigon clir.
- 4.26 Mae'r egwyddor ym mharagraff 3.1.6 wedi'i diwygio rywfaint yn dilyn y mewnbwn a gafwyd gan ymarferwyr ar yr angen am fwy o eglurder ar yr hyn y mae 'eu dysgu' yn cyfeirio ato yn y cyd-destun hwn.

Y celfyddydau mynegiannol

- 4.27 Ad-drefnwyd yr egwyddor ym mharagraff 3.2.1. yn dilyn yr adborth a gafwyd i roi mwy o eglurder i'r neges ynghylch gwell effeithiolrwydd. Mae hefyd wedi'i diwygio i adlewyrchu'r ffaith bod cymorth i ddysgwyr yn dod o sawl ffynhonnell, nid dim ond gan athrawon.

Iechyd a Lles

- 4.28 Mae'r naratif ym mharagraff 3.3.1 wedi'i ddiwygio i roi mwy o eglurder a chyd-destun i egwyddorion iechyd a lles cynnydd sy'n dilyn.
- 4.29 Mae'r egwyddorion ym mharagraffau 3.3.2, 3.3.3, 3.3.4 a 3.3.5 wedi'u hailysgrifennu yn dilyn yr adborth a gafwyd a'r adolygiad polisi a nododd fod yr egwyddorion gwreiddiol, fel y'u drafftwyd, yn rhy gyffredinol. Mae'r newidiadau a awgrymir yn rhoi ymdeimlad cryfach i'r ymarferwyr o'r modd y mae'r egwyddorion hyn yn effeithio ar gynnydd o ran iechyd a lles.
- 4.31 Mae'r egwyddor ym mharagraff 3.3.6 hefyd wedi'i diwygio i egluro'r cynnydd o ran iechyd a lles yn well ac, yn dilyn yr adborth a gafwyd, i gydnabod yn well bwysigrwydd symud i eirioli iddyn nhw ac i eraill wrth iddynt wneud cynnydd.

5. Ymgynghori

- 5.1 Mae Adran 76(2(a)) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r unigolion sy'n briodol (os o gwbl) yn eu barn nhw cyn cyhoeddi neu ddiwygio'r Codau hyn.
- 5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol 8 wythnos o hyd rhwng 21 Mai a 16 Gorffennaf 2021 ar y Codau drafft. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y cyfnod ymgynghori'n osgoi etholiadau'r Senedd a'i fod yn cael ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn academaidd. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo i gynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol yn cynnwys ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau plant, Estyn, undebau athrawon a rhanddeiliaid ehangach.
- 5.3 Cafwyd 32 o ymatebion ar y Cod Cynnydd drafft a 45 o ymatebion ar y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig drafft. Roedd nifer o'r ymatebion hyn yn gyflwyniadau manwl. Mae dogfennau'r ymgynghoriad a chrynodebau o'r ymatebion ar gael ar-lein yn: [Cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig | LLYW.CYMRU](#) a [Y cod cynnydd drafft | LLYW.CYMRU](#). Yn gryno, cafwyd cefnogaeth ar y cyfan ar gyfer y ddau God drafft, a nodwyd rhai awgrymiadau manwl o ran gwelliant.
- 5.4 Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd ar gyfer y Cod Cynnydd fel a ganlyn:
- cefnogaeth ar y cyfan i'r egwyddorion, gyda galw am gynnwys eglurhad pellach o'u diben a'u defnydd ymlaen llaw
 - yr angen i bwysleisio pwysigrwydd addysgeg effeithiol i gefnogi cynnydd dysgwyr
 - mwy o gydnabyddiaeth i'r broses o gaffael iaith yn y blynyddoedd cynnar, a'r ffaith y gall datblygiad iaith amrywio'n fawr yn dibynnu ar sylfaen ieithyddol dysgwr
 - mwy o bwyslais cyffredinol ar wella effeithiolrwydd fel dysgwr
 - yr angen i ddychwelyd at yr egwyddorion a'r Cod ymhen amser yn dilyn profiadau ysgolion a lleoliadau o weithio gyda nhw.

5.5 Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd ar gyfer y Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig fel a ganlyn:

- cefnogaeth ar y cyfan i'r datganiadau ac awgrymwyd diwygiadau iddynt
- yr angen i gyfeirio'n benodol at y Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd â materion amlieithog yn y datganiadau leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- croesawu cyfeiriad penodol at hanes Cymru
- croesawu cyfeiriadau at amrywiaeth, ond gan alw iddynt fod hyd yn oed yn fwy penodol mewn perthynas â materion gwrth-hiliaeth
- croesawu cyfeiriadau penodol at argyfwng yr hinsawdd a natur
- cyfeirio'n fwy penodol at hawliau fel y nodir o dan CCUHP a CCUHPA.

5.6 Ystyriwyd yr adborth a gafwyd a (lle y bo'n briodol) arweiniodd at ddiwygiadau, fel y nodir yn Adran 4 uchod.

5.6 Cafwyd adborth ehangach hefyd, a oedd yn mynd y tu hwnt i gynnwys y Codau drafft, o'r ddau ymgynghoriad. Mae hwn eisoes yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau, rhaglenni a chanllawiau. Roedd y prif bwyntiau ehangach a godwyd fel a ganlyn:

- yr angen am gymorth penodol a pharhaus i ysgolion ar wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, a chafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar ffocws hynny
- ar gyfer cynnydd, yr angen am gymorth penodol, ymarferol i ysgolion gyda mewnbwn arbenigol i fynd i'r afael â'r cysyniad o gynnydd wrth ddysgu wrth ddylunio'r cwricwlwm
- rhagor o ganllawiau a chymorth mewn perthynas â'r dulliau o asesu
- yr angen am gysylltiadau clir rhwng cynnydd ac asesu, yn cynnwys datblygu cymwysterau newydd yn seiliedig ar ofynion y Cwricwlwm i Gymru.

5.7 Fel y nodwyd gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg yn ei ddatganiad llafar ar 6 Gorffennaf 2021, mae'r gwaith ar y meysydd a gwmpesir gan adborth ehangach eisoes ar y gweill ar gyfer mis Medi 2021 ymlaen. Er enghraifft, mae adborth sy'n tynnu sylw at gynnydd wrth ddysgu ac asesu fel meysydd allweddol ar gyfer cymorth, yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r prosiect cynnydd Cymru gyfan, blaenoriaethau'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm o fis Medi, a rhagor o ddiweddariadau i'r canllawiau ar ddiwedd 2021.

Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol

6. Trosolwg o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Mae'r Codau'n ffurfio rhan annatod o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru sydd, ynghyd â'r dyletswyddau a'r gofynion eraill a roddwyd ar ysgolion a lleoliadau o dan y Ddeddf, yn rhoi eglurder a disgwyliadau cenedlaethol ar y modd y mae'n rhaid datblygu cwricwlwm / y modd y gellir gwneud hynny.
- 6.2 Fel y nodir yn adran [Cynllunio eich Cwricwlwm](#) o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru, mae angen i'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm fod yn un gyfannol. Mae angen iddi adlewyrchu amrywiaeth o ystyriaethau, sy'n cynnwys y wybodaeth yn y Codau hyn, yn ogystal â dyletswyddau a gofynion gorfodol eraill o dan y Ddeddf, canllawiau cwricwlwm ehangach, ynghyd ag amgylchiadau lleol. O ganlyniad, nid ystyrir bod dadansoddiadau a chostau ar wahân ac unigryw mewn perthynas ag effeithiau wedi'u dosrannu o elfennau penodol o'r Fframwaith yn ymarferol; neu os ceisir gwneud hynny, y byddai'n arwain at ganlyniadau amheus o ystyried yr amrywiaeth eang o newidynnau a chafeatau dan sylw. Yn gryno, ni fyddai'n realistig ceisio dadansoddi, asesu ac adrodd ar effeithiau'r gofynion penodol a nodir yn y Codau hyn o'r broses ehangach o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a lleoliadau.
- 6.3 Fodd bynnag, lluniwyd gwybodaeth fanwl ar y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar draws y system ac ar gyfer ysgolion a lleoliadau. Nodir hyn yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer y Ddeddf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddiweddarau'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol erbyn diwedd 2021.

Aseidiadau Effaith

- 6.4 Mae'r broses o asesu effaith mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddi. O ganlyniad, mae amrywiaeth o aseidiadau effaith wedi'u cyhoeddi eisoes, ac, mewn rhai achosion, wedi'u diweddarau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r gofynion ar ysgolion a lleoliadau a nodir yn y Codau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddwyd gwybodaeth fanwl ar y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar draws y system ac ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer y Ddeddf. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.3, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddiweddarau'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ymhellach erbyn diwedd 2021.
 - Mae'r [aseiad effaith integredig ar ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru](#) - sy'n cynnwys y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac egwyddorion cynnydd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020.

- Cyhoeddwyd [asesiad effaith integredig](#) o'r modd y byddai cynigion ar gyfer deddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu yn effeithio ar addysgu a dysgu ym mis Gorffennaf 2020.
- [Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.
- [Canllawiau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.
- Cyhoeddwyd [asesiad effaith integredig ar gynigion ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020.
- Y ffurflen [nodi'r effaith ar y system gyfiawnder](#) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018.

7. Opsiynau

- 7.1 Ystyriwyd opsiynau ynghylch statws y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r egwyddorion cynnydd, fel y nodir yn y Codau hyn, gan Weinidogion (ac fe'u trafodwyd gan Aelodau o'r Senedd) yn ystod hynt y Ddeddf rhwng 2020 a 2021. O ganlyniad, cwmpesir hyn yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Ddeddf. Yn gryno, roedd opsiynau o ran y datganiadau a'r egwyddorion yn ymwneud â'u statws yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.
- 7.2 Nododd adborth a gafwyd ar ymgyngoriad eang 2019 ar ganllawiau drafft y Cwricwlwm i Gymru (gweler: [Canllawiau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: adborth | LLYW.CYMRU](#)) rywfaint o bryder ynghylch gwahaniaeth posibl rhwng dulliau gweithredu ar draws ysgolion a lleoliadau yn deillio o ddull gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ac egwyddor sybsidaredd. Gwnaed y penderfyniad i osod gofynion gorfodol ar ysgolion a lleoliadau mewn perthynas â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r egwyddorion cynnydd, gan nodi manylion y gofynion hynny yn y Codau hyn, yn ystod hynt y Ddeddf wrth fynd i'r afael â'r pryder hwn. Mae'r Cod cynnydd hefyd yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd cynnydd wrth ddysgu fel cysyniad sylfaenol sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru.
- 7.3 O ganlyniad i'r uchod, mae Adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio'r Codau hyn. Mae'r Gweinidog wedi ymgyngori ar eu cynnwys: yn 2019 o ran datganiadau ac egwyddorion drafft cynharach, ac yn 2021 mewn perthynas â'r Codau drafft. Mae'r fersiynau drafft wedi'u diwygio o ystyried yr adborth a gafwyd, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol uchod. Ystyriwyd bod y gofyniad a nodir yn y Ddeddf i Weinidogion adolygu cynnwys y Codau yn rheolaidd a'i ddiweddarau os bydd angen, hefyd yn ddefnyddiol wrth gydnabod y ffaith y bydd profiadau cymdeithas, dysgwyr a'r proffesiwn addysg yn datblygu dros amser.

8. Costau a manteision

- 8.1 Fel y nodir yn adran 6 uchod, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad costau a manteision yn benodol ar yr elfennau o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a nodir yn y Codau hyn ar y sail yr ystyrir nad yw dadansoddiad o'r fath yn realistig. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gostau ychwanegol i'r system addysg yn codi o'r Codau hyn uwchlaw'r hyn anodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3.
- 8.2 Mae'r Codau'n sicrhau bod ysgolion a lleoliadau'n cael y sicrwydd sydd ei angen arnynt ynghylch trefnwyr cwricwlwm allweddol gan roi rhywfaint o gysondeb ac ehangder cwricwlwm ar draws y continwrm dysgu 3 i 16 oed. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth allweddol wedi'i llywio gan waith ymchwil ar natur cynnydd o ran dysgu ar draws y cwricwlwm a fydd yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i feithrin eu dealltwriaeth, a datblygu eu gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm.
- 8.3 Heb y Codau, byddai gan ysgolion a lleoliadau lai o eglurder a sicrwydd bod eu dulliau o ddatblygu a dylunio'r cwricwlwm yn unol ag egwyddorion a dulliau gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ynghyd ag ysgolion eraill ledled Cymru. Dylai eglurder ar y datganiadau a'r egwyddorion a nodir yn y Codau helpu ysgolion a lleoliadau i wneud cynnydd cyflymach wrth ddatblygu'r cwricwlwm wrth iddynt weithio tuag at weithredu a gwireddu eu cwricwla o fis Medi 2022.

9. Asesiad o'r Gystadleuaeth

- 9.1 Prawf hidlo'r gystadleuaeth:

Cwestiwn	Ateb
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%?	Nac oes
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy nag 20%?	Nac oes
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 50%?	Nac oes
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill?	Na fyddai
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydy
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai

Cwestiwn	Ateb
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C8: A yw'r sector wedi'i nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Nac ydy
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai

9.2 Ni fydd y darpariaethau yn y Codau yn effeithio ar fusnesau nac elusennau na'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd prawf hidlo'r gystadleuaeth.

9.3 Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn y Codau gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd na chyflenwyr presennol. Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3, disgwylir mai cyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu'r costau hyn, fydd yn gorfod talu'r mwyafrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth.

9.4 Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig (BBaChau) yng Nghymru.

10. Adolygiad ar ôl gweithredu

10.1 Bydd y gwaith o weithredu'r Codau mewn ysgolion a lleoliadau yn mynd rhagddo hyd at flwyddyn academaidd 2026/27 wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau. Bydd adolygiad o'r broses o'u gweithredu yn rhan o'r adolygiad gweithredu ehangach a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3 uchod.

10.2 Nid yw'r rhaglen ehangach o werthuso diwygiadau'r cwricwlwm (gweler: [Cwricwlwm i Gymru: Cynllun gweithredu – Hwb \(llyw.cymru\)](#)) wedi'i gynllunio fel asesiad ôl-weithredol unigol o effeithiau. Yn hytrach, mae'n broses ddysgu barhaus, gyda gwerthusiad o effeithiau yn rhan bwysig ohoni. Cynhelir gwerthusiad ffurfiannol yn ystod blynyddoedd cynnar y broses o'i gweithredu er mwyn deall llwyddiannau a heriau cynnar, a ph'un a yw diwygiadau i'r cwricwlwm yn cael y canlyniadau bwriadedig. Bydd hyn yn sicrhau y gellir gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i bolisiau er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd. Bydd gwerthusiad o effaith yn ystyried canlyniadau diwygiadau wrth iddynt ddod yn weithredol ac ar ôl cyfnod digonol i adael i ganlyniadau tymor hwy ddod i'r amlwg. Fel rhan o'r broses hon, caiff gwaith ei flaenoriaethu drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm i gefnogi ysgolion a lleoliadau sy'n gweithio ar gynnydd wrth ddysgu ac i feithrin dealltwriaeth ar draws y system ac adolygu'r egwyddorion cysylltiedig dros amser.

Atodiad 1

Rhestr Termau

Deddf	At ddibenion y ddogfen hon, mae'n cyfeirio'n benodol at Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	<p>Mae gan ddysgwr ADY os oes ganddo/ganddi anhawster neu anabledd dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.</p> <p>Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd:</p> <p>(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu</p> <p>(b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.</p> <p>Mae gan blentyn dan oedran ysgol gorfodol anhawster neu anabledd dysgu os yw ef neu hi yn debygol (neu y byddai'n debygol pe na bai DDdY) o gael cryn dipyn yn fwy o anhawster wrth ddysgu na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion/chyfoedion pan fydd yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol.</p> <p>*Cymerwyd o "Rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin (Chwefror 2019)". Gweler adran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.</p>
Meysydd Dysgu a Phrofiad (I)	<p>Mae strwythur trefnu Cwricwlwm Cymru yn cynnwys chwe Maes, sy'n annog cysylltiadau cryf ac ystyrlon ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Dyma'r meysydd a restrir yn y Ddeddf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Celfyddydau Mynegiannol • Iechyd a Lles • Dyniaethau • Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu • Mathemateg a Rhifedd • Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Sgiliau trawsgwricwlaidd	Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae'r rhain yn sgiliau gydol oes sy'n hanfodol ar gyfer dysgu ac am allu gweithredu'n llwyddiannus yn y byd modern. Maen nhw'n galluogi dysgwyr i fanteisio ar ehangder cwricwlwm ysgol a'r

	cyfoeth o gyfleoedd a gynigir ganddo, gan roi iddyn nhw y sgiliau gydol oes i gyflawni'r pedwar diben.
Cwricwlwm	Sefydlu'r holl brofiadau addysgu a dysgu a gynlluniwyd wrth gyflawni dibenion addysg y cytunwyd arnynt.
Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)	Addysg a ariennir gan yr awdurdod lleol a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion penodol disgyblion na allant, am ba reswm bynnag, fynychu ysgol brif ffrwd neu arbennig.
Estyn	Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Dyma'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.
Y pedwar diben	<p>Dyma'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae trefniadau'r cwricwlwm ac asesu yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau • Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith • Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas a • Dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd <p>O fewn y prif ddibenion hyn, caiff amrywiaeth o nodweddion manylach eu nodi yn y canllawiau ar Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.</p>
Lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir	Darpariaeth breifat, yn cynnwys cylchoedd chwarae a lleoliadau gwarchod plant, ar gyfer plant dan 5 oed.
Cyrrff llywodraethu	Cânt eu sefydlu yn unol ag adran 19 o Ddeddf Addysg 2002 ac maent yn gyfrifol am lywodraethu a chynnal yr ysgolion.
Dysgwr	Plentyn neu berson ifanc rhwng 3 ac 16 oed. Mae hyn yn cynnwys 'disgybl'.
Ysgolion a gynhelir	<p>Ysgolion y mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i'w cynnal. Maent yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion gwirfoddol • Ysgolion cymunedol ac ysgolion arbennig cymunedol • Ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig • Unrhyw ysgol arbennig a gynhelir nad yw wedi'i sefydlu mewn ysbyty¹
Ysgolion arbennig a gynhelir	Ysgolion sy'n diwallu anghenion addysgol arbennig a ariennir gan awdurdod lleol.

¹ Mae awdurdod lleol hefyd yn cynnal Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCDau) ond cânt eu rhestru ar wahân. Ystyr "cynnal" yw ariannu'r ysgol honno yn gyfan gwbl neu'n sylweddol.

Dysgu Proffesiynol	Cyfleoedd i ddatblygu a gwella gwybodaeth ac ymarfer proffesiynol darparwyr addysg, er mwyn datblygu ansawdd dysgu ac addysgu a gwella ysgolion.
Cod cynnydd	Is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf. Mae'r cod yn cynnwys y datganiadau cynnydd sy'n seiliedig ar waith ymchwil a ddefnyddir i ddatblygu cynnydd yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n cynnwys datganiadau cyffredin a datganiadau ar gyfer pob Maes.
Uned Cyfeirio Disgyblion	Math o ysgol sy'n cael ei sefydlu a'i chynnal gan awdurdod lleol yn unol ag adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 ² ar gyfer plant na allant fynd i ysgol brif ffrwd. Yn aml, caiff disgyblion eu cyfeirio os bydd angen mwy o ofal a chymorth arnynt na'r hyn y gall eu hysgol reolaidd ei chynnig.
Is-ddeddfwriaeth	Deddfwriaeth a wneir gan Weinidog, neu'n achlysurol gan gorff cyhoeddus, dan bwerau a roddwyd iddynt gan Ddeddfau Seneddol, Mesurau gan y Cynulliad a Deddfau'r Senedd er mwyn gweithredu a gweinyddu gofynion deddfwriaeth sylfaenol.
Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)	Cytundeb rhyngwladol sy'n gyfreithiol rwymol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pob plentyn, ni waeth beth fo'i hil, ei grefydd na'i alluoedd.
Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA)	Cytundeb rhyngwladol i hyrwyddo a diogelu pob hawl ddynol a rhyddid sylfaenol ac i sicrhau y gall pob person ag anableddau eu mwynhau ac i annog parch i'w hurddas hanfodol. Mae pobl ag anableddau yn cynnwys y sawl sydd â namau corfforol, meddyliol, deallusol neu synhwyraidd hirdymor a all, ynghyd â rhwystrau amrywiol, eu hatal rhag cymryd rhan lawn ac effeithiol mewn cymdeithas ar sail gyfartal ag eraill.
Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig	Is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf. Mae'r cod yn cynnwys y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r datganiadau hyn yn sicrhau lefel o gysondeb yn y gwaith o ddylunio'r cwricwlwm mewn lleoliadau ac ysgolion, gan fod yn rhaid i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r dysgu a fynegir ym mhob datganiad.

² Mae'r Bil yn gwneud adran 19 yn ddarpariaeth ar gyfer Lloegr yn unig ac yn mewnosod darpariaeth newydd i Gymru yn unig yn adran 19A o Ddeddf Addysg 1996.